Y Comisiwn Etholiadol

Llawlyfr i'r Cyfryngau

Etholiad cyffredinol Seneddol y DU ym Mhrydain Fawr

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

The Electoral Commission 2010

Cynnwys

1	Cysylltiadau ac adnoddau cyfryngol	1
2	Calendr etholiad cyffredinol Seneddol y DU	2
3	Pwy yw pwy yn yr etholiad	4
4	Sefyll ar gyfer yr etholiad	7
5	Ymgyrchu a gwariant	9
6	Twyll a chamymddygiad etholiadol	17
7	Cofrestru i bleidleisio	19
8	Pleidleisio	22
9	Cyfrif y pleidleisiau	26
10	Herio canlyniad etholiad	28

Nodwch: mae'r cyhoeddiad hwn ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae llawlyfr i'r cyfryngau ar wahân ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yng Ngogledd Iwerddon ar gael ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/media-resources

1 Cysylltiadau ac adnoddau'r cyfryngau

Gwybodaeth gyswllt

Swyddfa'r wasg y Comisiwn Etholiadol

Llundain
Oriau swyddfa: 020 7271 0704
Tu allan i oriau'r swyddfa: 07789 920414
E-bost: press@electoralcommission.org.uk

Gogledd Iwerddon
Oriau swyddfa: 028 90 347 319 / 303
Tu allan i oriau'r swyddfa: 07770 886927
E-bost: electoralcommission@webershandwick.com

Yr Alban
Oriau swyddfa: 0131 556 0770
Tu allan i oriau'r swyddfa: 07703 258834
E-bost: elections@pagodapr.com

Cymru
Oriau swyddfa: 029 2034 6810
Tu allan i oriau'r swyddfa: 07789 920414
E-bost: press@electoralcommission.org.uk

Gwefannau

www.electoralcommission.org.uk / www.comisiwnetholiadol.org.uk
Mae gan ein gwefan gorfforaethol ardal arbennig ar gyfer etholiadau: www.electoralcommission.org.uk/elections a chanolfan cyfryngau arbennig ar gyfer newyddiadurwyr www.electoralcommission.org.uk/news-and-media

www.aboutmyvote.co.uk / www.fymhleidlaisi.co.uk
Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth ar sut i gofrestru a phleidleisio. Mae'n cynnwys cyfleuster chwilio am god post sy'n galluogi pobl i ddarganfod ble y cynhelir yr etholiadau a rhaglen ryngweithiol 'cerdded drwy orsaf bleidleisio'.

www.dopolitics.org.uk
Adnodd ar-lein ar gyfer ymarferwyr democratiaeth yw'r Ganolfan Gwna Wleidyddiaeth. Mae'n darparu gwybodaeth ac adnoddau i alluogi pobl i gynnal gweithdai rhyngweithiol a digwyddiadau.

Delweddau

Mae gennym amrywiaeth o ddelweddau'n ymwneud ag etholiad a phleidleisio, sydd ar gael drwy gysylltu â swyddfa'r wasg y Comisiwn neu drwy ymweld â'n gwefan www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/media-resources/press-images

2 Calendr etholiad cyffredinol Seneddol y DU

Digwyddiad	**Dyddiad**
Dechrau'r cyfnod rheoledig ar gyfer y gwario ar ymgyrchu gan y pleidiau gwleidyddol	Dydd Iau 5 Chwefror 2009
Dechrau'r cyfnod rheoledig 'ymgyrch hir' ar gyfer treuliau'r ymgeiswyr	Dydd Gwener 1 Ionawr 2010
Diddymu'r Senedd a chyhoeddi gwrit	Dydd Llun 12 Ebrill 2010
Dechrau'r cyfnod rheoledig 'ymgyrch fer' ar gyfer treuliau'r ymgeiswyr	Dydd Mawrth 13 Ebrill 2010
Derbyn y gwrit	**Dydd Llun 12 neu Ddydd Mawrth 13 Ebrill 2010**
Y diwrnod olaf i gyhoeddi hysbysiad etholiad	Dydd Mercher 14 neu Ddydd Iau 15 Ebrill 2010
Y dyddiad cau ar gyfer dosbarthu papurau enwebu	Dydd Mawrth 20 Ebrill 2010
Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio	**Dydd Mawrth 20 Ebrill 2010**
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post	**5pm, Dydd Mawrth 20 Ebrill 2010**
Cyhoeddi datganiadau'r rhai a enwebwyd	**Erbyn Dydd Mercher 21 Ebrill 2010**
Y diwrnod olaf ar gyfer tynnu enwebiadau yn ôl	Dydd Mawrth 20 Ebrill 2010
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy	5pm, Dydd Mawrth 27 Ebrill 2010
Y dyddiad cau ar gyfer papurau pleidleisio newydd drwy'r post	5pm, Dydd Iau 6 Mai 2010
Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar sail argyfwng meddygol	5pm, Dydd Iau 6 Mai 2010

Diwrnod Pleidleisio	**7am hyd 10pm, Dydd Iau 6 Mai 2010**
Cadarnhau a chyfrif y papurau pleidleisio	I ddechrau cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl 10pm, Dydd Iau 6 Mai 2010
Cyhoeddi'r canlyniad	Dydd Iau 6 Mai neu Ddydd Gwener 7 Mai 2010, dibynnu ar y cyfrif
Y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd cofnodion gwariant y pleidiau ar ymgyrchu (hyd at ac i gynnwys £250,000)	Dydd Iau 5 Awst 2010
Y dyddiad olaf ar gyfer dychwelyd cofnodion gwariant y pleidiau ar ymgyrchu (dros £250,000)	Dydd Gwener 5 Tachwedd 2010

3 Pwy yw pwy yn yr etholiad

Y Comisiwn Etholiadol

Corff annibynnol yw'r Comisiwn Etholiadol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Gosodwn safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda a byddwn yn rheoleiddio cyllid etholiadau a phleidiau. Rydym yn:

- sicrhau bod pobl yn deall sut i gofrestru i bleidleisio a sut i fwrw'u pleidlais.
- gosod y safonau ar gyfer rhedeg etholiadau a chofrestru etholiadol, ac adrodd ar ba mor dda mae hyn yn cael ei wneud
- cofrestru pleidiau gwleidyddol
- sicrhau bod pobl yn deall ac yn dilyn y rheolau ar gyfer cyllid plaid ac etholiad
- cyhoeddi manylion o ffynonellau cyllid y caiff y pleidiau a'r ymgeiswyr a sut y maent yn ei wario

Ar gyfer yr etholiad cyffredinol Seneddol y DU, rydym wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u hasiantiaid, ac i drydydd partïon ar sut y gallant gydymffurfio â'u gofynion adrodd statudol. Rydym hefyd wedi paratoi llawlyfr i staff yr orsaf bleidleisio. Mae'r rhain i gyd ar gael ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/guidance

Rydym yn cynnal ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus fel bod pobl yn gwybod sut i gofrestru mewn pryd i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol Seneddol. Ceir manylion ein hymgyrchoedd ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/public-awareness-campaigns

Mae'n ofyniad statudol i ni gyhoeddi adroddiad ar y modd y gweinyddir etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Byddwn hefyd yn adrodd ar weinyddiad yr etholiadau lleol yn Lloegr. Byddwn yn cyhoeddi'r holl adroddiadau yn nhymor yr Hydref 2010.

Y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol

Yng Nghymru a Lloegr, swydd ddefodol ar y cyfan yw bod yn Swyddog Canlyniadau mewn etholiad cyffredinol Seneddol. Mae gan Swyddogion Canlyniadau yr hawl i dderbyn y gwrit a chyhoeddi canlyniadau'r cyfrif.

Mae gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol y cyfrifoldeb am drefniadaeth a threfn cynnal etholiad – gan gynnwys enwebiadau, dosbarthu cardiau pleidleisio a phapurau pleidleisio drwy'r post, trefn cynnal y pleidleisio a chyfrif y pleidleisiau – fel arfer bydd yn uwch swyddog o'r cyngor neu'n Brif Weithredwr yr awdurdod lleol.

Yn yr Alban nid yw swydd y Swyddog Canlyniadau yn un ddefodol ac ef fydd yn gyfrifol am redeg yr etholiad. Nid yw'r swydd Swyddog Canlyniadau Gweithredol yn bodoli. Mae'n debyg mai uwch swyddog o'r cyngor fydd y Swyddog Canlyniadau

Yng Ngogledd Iwerddon, y Prif Swyddog Etholiadol – gyda chefnogaeth y Swyddfa Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon – sydd yn gyfrifol am redeg etholiadau.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am ddarparu a chynnal y gofrestr etholiadol a'r rhestri o bleidleiswyr absennol yn yr ardal. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Y Swyddog Llywyddu a chlercod pleidleisio

Caiff Swyddogion Llywyddu eu penodi gan Swyddogion Canlyniadau neu Swyddogion Canlyniadau Gweithredol i redeg gorsafoedd pleidleisio. Mae'n rhaid iddynt weithredu'n amhleidiol bob amser a sicrhau y glynir at y weithdrefn gywir ar gyfer pleidleisio.

Bydd eu dyletswyddau'n cynnwys trefnu cynllun yr orsaf bleidleisio, goruchwylio'r clercod pleidleisio, anfon papurau pleidleisio, cynorthwyo pleidleiswyr a sicrhau bod y blychau pleidleisio'n cael eu cludo'n ddiogel i'r lleoliad ar gyfer y cyfrif.

Cyflogir clercod pleidleisio i gynorthwyo'r Swyddogion Llywyddu gyda'u dyletswyddau yn yr orsaf bleidleisio.

Arsyllwyr mewn Etholiad

Gall unrhyw un wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn arsyllwr mewn etholiad. Rhaid i arsyllwyr gytuno i gadw at God Ymarfer y Comisiwn, gan gynnwys parchu cyfrinachedd y bleidlais. Gall cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol fynychu hefyd. Gall arsyllwyr ofyn cwestiynau i ymgeiswyr, asiantiaid, staff etholiad ac etholwyr a chadw golwg ar y gweithrediadau yn ystod y pleidleisio, y cyfrif, ac ar anfon pleidleisiau drwy'r post a'u derbyn yn ôl

I gael mwy o wybodaeth am ddod yn arsyllwr mewn etholiad, ewch i wefan y Comisiwn Etholiadol
www.electoralcommission.org.uk/elections/electoral_observers

Asiantiaid etholiad

Asiant etholiad yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal trefn ymgyrch etholiadol ymgeisydd. Yn unol â'r gyfraith, ni chaiff rhai pobl weithredu fel asiant etholiad, e.e. cyflogeion y Swyddog Canlyniadau. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn penodi asiant yn cymryd y cyfrifoldeb eu hunain a thybir felly'n awtomatig eu bod yn gweithredu fel asiantiaid drostynt eu hunain.

Rhifwyr

Gwirfoddolwyr o fewn y pleidiau gwleidyddol yw ‘rhifwyr’ neu ‘wirwyr’ sy’n sefyll tu allan i orsafoedd pleidleisio ac yn cofnodi rhifau etholiadol y rhai hynny sydd wedi pleidleisio. Maent yn dod o hyd i gefnogwyr tebygol nad ydynt wedi pleidleisio a’u hannog i wneud hynny cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Er bod ganddynt rôl bwysig mewn etholiadau, nid oes ganddynt statws cyfreithiol swyddogol. Nid yw’r gyfraith yn caniatáu i rifwyr weithredu tu mewn i orsafoedd pleidleisio.

4 Sefyll ar gyfer etholiad

Pwy sy'n gallu sefyll fel ymgeisydd?

I fod yn ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, rhaid i unigolyn fod:

- yn 18 mlwydd oed o leiaf ar y dydd y caiff ei enwebu ac ar ddiwrnod yr etholiad
- yn ddinesydd Prydeinig, Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd cymwys y Gymanwlad. Bydd unigolyn yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad os bydd ganddo ganiatâd amhenodol i aros yn y DU neu'n ddinesydd nad yw angen caniatâd i aros yma

Nid yw'n ofynnol bod ymgeisydd yn byw yn yr etholaeth Seneddol y dymuna sefyll ynddi.

Dyma fydd yr etholiad cyffredinol Seneddol y DU cyntaf lle bydd ymgeiswyr mor ifanc â 18 oed yn gallu sefyll. Cafodd yr oedran cymhwyso isaf ei ostwng o 21 mlwydd oed i 18 mlwydd oed yn y Ddeddf Gweinyddu Etholiad 2006.

A oes unrhyw reswm pam na fyddai rhywun yn gallu sefyll fel ymgeisydd?

Ni chaiff rhai pobl penodol sefyll ar gyfer etholiad i Senedd y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhywun sy'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu ryddhad rhag dyled yng Nghymru a Lloegr, wedi'i farnu'n fethdalwr yng Ngogledd Iwerddon, neu ei eiddo wedi'i atafaelu yn yr Alban ac nid yw wedi'i ryddhau
- carcharorion a ddedfrydwyd i garchar am fwy na 12 mis ac sydd yn gaeth ar hyn o bryd yn dilyn y ddedfryd honno
- pobl a gafwyd yn euog o rai troseddau etholiadol (gweithrediadau llwgr neu anghyfreithlon)
- rhai cyflogeion y Goron, gan gynnwys gweision sifil, swyddogion yr heddlu, aelodau o'r lluoedd arfog a barnwyr
- unrhyw un sydd â'r hawl i eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Sut ydych chi'n dod yn ymgeisydd Seneddol y DU?

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau cefnogaeth 10 'llofnodwr' i gefnogi enwebiad: 'cynigydd', 'eilydd' ac wyth cefnogwr arall, sydd wedi'u cofrestru ac yn gymwys i bleidleisio yn yr etholaeth y maent yn dymuno sefyll ynddi

Rhaid i ymgeiswyr, eu hasiant, cynigydd neu eilydd ddosbarthu â llaw gopi caled o'u papurau enwebu, wedi'u llofnodi gan eu llofnodwyr i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) erbyn 4pm ar ddydd Mawrth 20 Ebrill.

Mae'r Comisiwn yn cynhyrchu cyfarwyddyd i ymgeiswyr a'u hasiantiaid sy'n cynnwys pob agwedd ar sefyll am etholiad, gan gynnwys enwebiadau, ymgyrchu a'r cyfrif. Mae'r cyfarwyddyd ar gael ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/guidance/candidates-agents/candidates-and-agents

A oes angen ernes ac a fydd ymgeiswyr yn ei gael yn ôl?

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr dalu'r ernes o £500 mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Rhaid iddynt dalu'r ernes cyn 4pm ar ddydd Mawrth 20 Ebrill.

Bydd ymgeiswyr sy'n sicrhau llai na phump y cant o gyfanswm y pleidleisiau yn eu hetholaeth yn colli eu hernes.

Sut all ymgeisydd sefyll dros blaid?

Os bydd ymgeisydd yn dymuno sefyll dros blaid wleidyddol, a defnyddio enw'r blaid honno neu ddisgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio, rhaid iddo ofyn am ganiatâd y blaid honno.

Yna bydd Swyddog Enwebu'r blaid honno, neu rywun a awdurdodwyd gan y Swyddog Enwebu i wneud hynny, yn anfon 'tystysgrif awdurdodi'.

5 Ymgyrchu a gwariant

Beth yw Purdah?

Mae ‘Purdah’ yn cyfeirio at y cyfnod rhwng diddymu’r Senedd a’r diwrnod pleidleisio. Bydd y Swyddfa Gabinet yn anfon cyfarwyddyd ar gyfer Gweinidogion a gweision sifil ar sut i ymdrin â busnes y Llywodraeth gyda’r bwriad o sicrhau na all yr un blaid nac ymgeisydd fanteisio ar eu safle er lles etholiadol yn ystod y cyfnod hwn.

Bydd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn llunio cyfarwyddyd ar wahân ar gyfer awdurdodau lleol.

Gan nad yw deddfwrfeydd datganoledig Cymru a’r Alban yn cael eu hethol, dylai Gweinidogion a gweision sifil datganoledig yng Nghymru a Lloegr barhau gyda’u dyletswyddau datganoledig fel arfer.

Am fwy o wybodaeth am y cyfnod Purdah, cysylltwch â swyddfa’r wasg y Swyddfa Gabinet neu gweler eu cyfarwyddyd ar yr arfer a argymhellir www.cabinetoffice.gov.uk/propriety_and_ethics/civil_service/election_guidance.aspx

A oes rheolau ynghylch yr hyn all ymgeiswyr ddweud am ei gilydd?

Mae’n anghyfreithlon i wneud datganiad ffug ynghylch cymeriad personol neu ymddygiad ymgeisydd er mwyn effeithio ar ganlyniad ymgeisydd mewn etholiad. Mae’n amddiffyniad i ddangos sail resymol dros gredu bod y datganiad yn wir.

Yn ogystal, gallai rheolau ynghylch difenwi/enllib hefyd fod yn berthnasol i ddeunydd etholiad.

A fydd ymgeiswyr yn cael dosbarthu taflenni am ddim?

Bydd gan bob ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol Seneddol yr hawl i dâl cludiant yn rhad ac am ddim ar ‘gyfathrebiad etholiadol’, taflen fel arfer, a anfonir at etholwyr yn eu hetholaeth. Dylai ymgeiswyr gysylltu â darparwr gwasanaeth cyffredinol megis y Post Brenhinol, i wneud trefniadau. Bydd telerau ac amodau rhesymol yn weithredol.

Beth yw gwasgnodau?

‘Gwasgnod’ yw enw a chyfeiriad argraffydd a hyrwyddwr deunydd etholiad ymgeisydd neu blaid. Diben gwasgnodau yw sicrhau bod etholwyr yn ymwybodol o ffynhonnell yr wybodaeth am yr ymgyrch.

Mae’n rhaid i bob deunydd etholiad a argraffwyd (h.y. posteri, placardiau a thaflenni a ddosbarthwyd i ddiben hyrwyddo etholiad ymgeisydd neu blaid) gynnwys gwasgnod.

Beth yw hystingau?

Gall unrhyw un drefnu 'hystingau' a digwyddiadau ydynt lle mae ymgeiswyr etholiadol yn trafod polisïau ac yn ateb cwestiynau gan gynulleidfa.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i wahodd pob ymgeisydd sy'n sefyll mewn ardal.

Os bydd rhywun ar wahân i'r ymgeisydd neu'r ymgeiswyr yn talu costau'r digwyddiad, gallai hyn gynrychioli rhodd a chyfrif tuag at dreuliau etholiadol yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr.

Os yw digwyddiad yn agored i'r cyhoedd ac yn cael ei gynnal mewn ffordd nad yw yn hyrwyddo llwyddiant etholiadol ymgeiswyr penodol yn ddidwyll, ystyriwn na ddylai gyfrif tuag at dreuliau etholiadol unrhyw ymgeiswyr.

Yn ogystal, barn y Comisiwn Etholiadol yw **na** fydd costau'r digwyddiad yn cyfrif yn erbyn treuliau etholiadol ymgeisydd os:

- rydych wedi gwahodd yr holl ymgeiswyr yn yr etholaeth i fynychu
- mae eich hystingau yn agored i aelodau'ch sefydliad yn unig

Y ffordd symlaf i ddangos bod hystingau yn ddidwyll yw gwahodd yr holl ymgeiswyr hysbys yn yr ardal berthnasol. Fodd bynnag, efallai ni fydd yn bob amser yn ymarferol. Os bydd trefnydd digwyddiad yn penderfynu peidio â gwahodd yr holl ymgeiswyr hysbys, dylent allu rhoi rhesymau gwrthrychol i ddangos nad yw'r hystingau yn rhai hyrwyddol.

Ni ddylai'r rhesymau hyn fod yn seiliedig ar faterion goddrychol, fel eich barn am y polisïau neu blaid neu ymgeisydd.

Caiff dadleuon a ddarlledir gan y BBC, S4C neu ddarlledwyr masnachol eu heithrio o reolau gwariant ymgeisydd.

Mae'r Comisiwn yn cynhyrchu arweiniad i bleidiau, ymgeiswyr, asiantau a threfnwyr hystingau. Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar y ffeithlen *Topic Overview: Hustings Events* ar wefan y Comisiwn yn: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-those-we-regulate

Sut y dyrannir Darllediadau Gwleidyddol?

Dan y Ddeddf Gyfathrebu 2003 mae'n ofynnol i rai darlledwyr gyflwyno Darllediadau Gwleidyddol yn seiliedig ar reolau dyrannu a luniwyd gan Ofcom. Gweithredir y rheolau hyn gan ITV1, Channel 4, Five, talkSPORT, Virgin AM a Classic FM.

Mae'n ofynnol i S4C gyflwyno darllediadau dan y Ddeddf ond rheolir hynny gan Awdurdod Darlledu Cymru.

Mae'n ofynnol i'r BBC gyflwyno Darllediadau Gwleidyddol dan ei Siarter a Chytundebau ond ni chânt eu rheoli gan Ofcom.

Nid yw'n ofynnol i Sky gyflwyno Darllediadau Gwleidyddol ond mae wedi gwirfoddoli i wneud hynny yn y gorffennol.

Bydd pleidiau'n gymwys i ddarlledu cyn belled â'u bod yn cystadlu yn un rhan o chwech neu fwy o'r seddi yn yr etholiad. Caiff Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon eu hystyried ar wahân. Gall pleidiau dderbyn darllediadau ychwanegol yn ddibynnol ar y lefel o gefnogaeth etholiadol a enillwyd ganddynt yn y gorffennol ac/neu yn bresennol.

Y pleidiau gwleidyddol sy'n talu am a chynhyrchu'r Darllediadau Gwleidyddol, gan ddilyn cyyfngiadau'r gyfraith – er enghraifft, ar hawlfraint, enllib, dirmyg, anlladrwydd, anogaeth i gasineb hiliol neu drais. Rhaid iddynt gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom neu Ganllawiau Golygyddol y BBC sy'n ymwneud â niwed a throsedd, tegwch a phreifatrwydd.

I gael mwy o wybodaeth gan y Grŵp Cyswllt Darlledu, grŵp o ddarlledwyr Ofcom sy'n trafod dyraniad Darllediadau Gwleidyddol ewch i www.broadcastersliaisongroup.org.uk

Beth yw'r rheolau ar amhleidioldeb gwleidyddol darlledwyr a gwneuthurwyr rhaglenni?

Ymdrinnir ag amhleidioldeb gwleidyddol mewn darllediadau gan y canllawiau golygu neu'r cod perthnasol i'r darlledwr penodol hwnnw.

Gellir dod o hyd i ganllawiau golygu'r BBC yn ystod etholiad yn www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines/edguide/politics/broadcastingdur.shtml. Gellir dod o hyd i God Darlledu Ofcom yn www.ofcom.org.uk/tv/ifi/codes/bcode/elections/

Faint all pleidiau wario'n genedlaethol?

Ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU, bydd pleidiau gwleidyddol yn amodol i gyfyngiadau gwario'n seiliedig ar fformiwla a osodir mewn deddfwriaeth. Cyfanswm yr arian all plaid ei wario'n genedlaethol yw £30,000 wedi'i luosi gyda nifer y seddi y maent yn cystadlu amdanynt. Gall plaid sy'n sefyll ym mhob un o'r 650 yn Senedd y DU wario hyd at £19.5 miliwn. Mae cyfyngiadau gwario ar wahân ar gyfer ymgeiswyr (gweler 'Faint all ymgeiswyr ei wario? yn nes ymlaen yn y bennod hon).

Mae'r cyfnod rheoledig ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn yr etholiad cyffredinol Seneddol hwn yn gorgyffwrdd â'r cyfnod rheoledig ar gyfer pleidiau yn etholiadau Senedd Ewrop 2009. O ganlyniad, mae'r cyfyngiadau gwario ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU ac etholiadau Senedd Ewrop wedi eu cyfuno. Gellir ychwanegu unrhyw danwario gan blaid mewn perthynas â'r

cyfyngiad yn etholiadau Senedd Ewrop at y cyfyngiad gwariant yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.[1]

Enghraifft
Mae 'Plaid A' yn sefyll ym mhob sedd ym Mhrydain Fawr ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop a'r etholiad cyffredinol Seneddol. Os bydd 'Plaid A' yn gwario £3,000,000 yn etholiadau Senedd Ewrop (£105,000 dan eu cyfyngiad penodedig o £3,105,000), gallant wedyn ychwanegu swm y tanwariant hwnnw at eu cyfyngiad etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Byddai hyn wedyn yn galluogi Plaid A' i wario £19,065,000 ym Mhrydain Fawr yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU.

Pryd fydd y gyfyngu ar wariant yn cychwyn?

Mae'r cyfyngiad ar wariant plaid yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn gorgyffwrdd â'r cyfyngiad ar wariant etholiadau Senedd Ewrop 2009. Mae'r cyfyngiad cyfunol ar wariant wedi bod yn weithredol ers 5 Chwefror 2009. Amlinellir y cyfyngiadau ar wariant ymgyrch ar gyfer pleidiau yn Tabl 1 isod. Bydd yr union derfyn ar gyfer pob plaid yn dibynnu ar faint o seddau y bydd yn eu hymladd yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, a faint o ranbarthau yr ymladdodd yn ystod etholiadau Senedd Ewrop.

Tabl 1: Cyfyngiadau cyfunol gwariant ymgyrch etholiadol pleidiau

Lleoliad	Cyfyngiad gwariant Seneddol y DU	Cyfyngiad gwariant Senedd Ewrop	Cyfyngiad gwariant cyfunol
Lloegr	£15,990,000	£2,655,000	£18,645,000
Yr Alban	£1,770,000	£270,000	£2,040,000
Cymru	£1,200,000	£180,000	£1,380,000
Prydain Fawr	**£18,960,000**	**£3,105,000**	**£22,065,000**
Gogledd Iwerddon	£540,000	£135,000	£675,000
Y Deyrnas Unedig	**£19,500,000**	**£3,240,000**	**£22,740,000**

I bwy fydd pleidiau yn adrodd ar gofnodion gwario?

Rhaid i bleidiau gwleidyddol sy'n ymgeiswyr yn yr etholiad gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Etholiadol yn manylu ar eu holl wariant yn ystod yr ymgyrch. Rhaid cyflwyno hwn o fewn tri mis yn dilyn yr etholiad os gwariwyd hyd at

[1] Am wybodaeth ynghylch gwariant pleidiau gwleidyddol yn Etholiadau Senedd Ewrop 2009 gweler http://registers.electoralcommission.org.uk/regulatory-issues/gbcampaignex.cfm

£250,000, neu o fewn chwe mis i'r etholiad os bu'r gwariant yn fwy na £250,000.

Byddwn yn cyhoeddi gwariant ymgyrch y pleidiau ar ein gwefan cyn gynted ag y bydd hynny'n rhesymol ymarferol.

Oes raid i bleidiau adrodd ar y rhoddion a dderbyniant?

Rhaid i bleidiau gwleidyddol adrodd ar yr holl roddion o'r un ffynhonnell sy'n dod yn gyfanswm o dros £7,500 a wnaed i'r pleidiau canolog a rhoddion dros £1,500 a wnaed i unedau cyfrifo lleol. Rhaid i bleidiau adrodd ar hyn bob chwarter. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod etholiad cyffredinol Seneddol y DU (o'r dyddiad y bydd y Prif Weinidog yn galw'r etholiad hyd ddiwrnod y pleidleisio) rhaid i'r pleidiau canolog adrodd i'r Comisiwn bob wythnos ynghylch rhoddion. Bydd y Comisiwn wedyn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ei wefan fel y manylir yn Tabl 2 isod.

Tabl 2: Cyfnodau adrodd ar roddion plaid a dyddiadau cyhoeddi

Cyfnod adrodd	Dyddiad cau ar gyfer adrodd	Dyddiad cyhoeddi
Wythnos gyntaf yr etholiad	Saith niwrnod yn ddiweddarach	Drannoeth fel arfer
Ail wythnos	Saith niwrnod yn ddiweddarach	Drannoeth fel arfer
Y drydedd wythnos	Saith niwrnod yn ddiweddarach	Drannoeth fel arfer
Y bedwaredd wythnos	Saith niwrnod yn ddiweddarach	Drannoeth fel arfer

Faint a wariwyd gan y pleidiau yn ystod y ddau etholiad cyffredinol Seneddol y DU diwethaf?[2]

Mae Tabl 3 a Ffigur 1 isod yn dangos gwariant y pleidiau yn ystod y ddau etholiad cyffredinol Seneddol y DU diwethaf a gynhaliwyd yn 2001 a 2005.

Tabl 3: Gwariant y pleidiau yn etholiadau 2001 a 2005 ym Mhrydain Fawr

Plaid	gwariant 2001	gwariant 2005
Llafur	£10,945,119	£17,939,617
Y Blaid Geidwadol	£12,751,813	£17,852,240
Y Democratiaid Rhyddfrydol	£1,361,377	£4,324,574
Plaid Genedlaethol yr Alban	£226,203	£193,987
Plaid Cymru	£71,948	£38,879
Pleidiau eraill	£901,800	£1,380,106
Cyfanswm	**£26,258260**	**£41,729,403**

Ffigur 1: Gwariant y pleidiau yn etholiadau 2001 a 2005 ym Mhrydain Fawr



[2] Roedd etholiad cyffredinol Seneddol y DU Mehefin 2001 yn destun cyfyngiadau gwariant gostyngol arbennig (£15,384,000 i blaid yn sefyll ym mhob etholaeth Seneddol yn y DU).

Am wybodaeth ar wariant ymgyrchu'r pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU blaenorol ewch i http://registers.electoralcommission.org.uk/regulatory-issues/gbcampaignex.cfm

Faint all ymgeiswyr ei wario?

Rhennir y cyfnod rheoledig pan fydd cyfyngiad ar wariant ymgeisydd, i 'ymgyrch hir' ac 'ymgyrch fer'.'

Mae'r 'ymgyrch fer' yn parhau o ddiddymiad y Senedd hyd ddiwrnod y pleidleisio. Yn ystod y cyfnod hwn, gall ymgeiswyr wario **£7,150 a 5c ar gyfer pob etholwr mewn etholaeth fwrdeistrefol (neu 'burgh' yn yr Alban) neu 7c ar gyfer pob etholwr mewn etholaeth sirol.**

Mae'r 'ymgyrch hir' yn rheoleiddio gwariant yn ystod y cyfnod cyn diddymu'r Senedd, ac ond yn weithredol os bydd y Senedd wedi parhau am 55 mis.

Rhwng 55 mis (bydd yr ymgyrch hir yn dechrau ar 1 Ionawr 2010 yn yr etholiad hwn) a diddymiad y Senedd, gall pob ymgeisydd wario **£25,000 a 5c ar gyfer pob etholwr mewn etholaeth fwrdeistrefol a 7c ar gyfer pob etholwr mewn etholaeth sirol.**

Bydd canran y cyfyngiad newydd ar yr hyn all ymgeisydd ei wario yn dibynnu ar pryd y diddymwyd y Senedd. Digwydd hyn fel bod y swm cyffredinol all ymgeisydd ei wario yn adlewyrchu hyd y cyfnod rheoledig, h.y. y cyfnod ymgyrchu byr a hir cyfunol. Ar gyfer yr etholiad hwn, gall ymgeiswyr wario 100 y cant o'u terfyn gwariant 'ymgyrch hir'.

Po hwyraf y bydd y Senedd yn cael ei ddiddymu, y mwyaf y gall ymgeisydd wario o'i gyfyngiad ymgyrch hir. Ar gyfer yr etholiad hwn gall ymgeiswyr wario 100% o'r cyfyngiad ymgyrch hir.

Bydd y cyfyngiadau gwariant ar gyfer y cyfnodau hyn ar wahân ac ni ellir eu cyfuno.

Oes raid i ymgeiswyr adrodd ar roddion a dderbyniont?

Rhaid i ymgeiswyr gynnwys manylion o bob rhodd unigol dros £50 a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod rheoledig ar y ffurflen gwariant etholiadol a anfonir at Swyddogion Canlyniadau. Yn ogystal, rhaid i ymgeiswyr roi cyfanswm y rhoddion dan £50 a dderbyniwyd ganddynt.

Yn ystod y cyfnod hwn, rhaid i bob rhodd fydd dros £50 ddod o ffynhonnell a ganiateir.

I bwy y bydd ymgeiswyr yn adrodd ar eu gwariant?

Rhaid i ymgeiswyr anfon eu cofnod o wariant i'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol yn yr etholaeth y maent yn sefyll ynddi. Rhaid cyflwyno'r rhain o fewn 35 diwrnod yn dilyn y canlyniad.

Oes raid i sefydliadau ac unigolion nad ydynt yn bleidiau nac yn ymgeiswyr adrodd ar eu gwariant?

Ym mhob etholiad, bydd unigolion a sefydliadau sy'n ymgyrchu yn yr etholiad, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr. Rydym yn galw'r rhain yn 'drydydd partïon'.

Mae'n rhaid i drydydd partïon sy'n ymgyrchu mewn etholiad cyffredinol y DU – ac sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 yn Lloegr neu £5,000 yn yr Alban, Cymru neu Ogledd Iwerddon – gofrestru gyda'r Comisiwn ac adrodd eu gwariant ymgyrchu i'r Comisiwn.

Mae'r terfyn gwario etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn gorgyffwrdd ag etholiadau Senedd Ewrop 2009. Mae'r terfyn gwario cyfunol yn gymwys o 5 Chwefror 2009.

Tabl 4: Terfynau gwario trydydd partïon ar gyfer etholiad cyffredinol y DU 2010

Ardal	**Terfyn gwario**
Lloegr	£953,250
Yr Alban	£126,000
Cymru	£71,259
Cyfanswm y DU	**£1,184,249**

Mae'n rhaid i drydydd partïon hefyd adrodd rhoddion o fwy na £7,500 y maent yn eu derbyn yn ystod y cyfnod rheoleiddio a'u defnyddio ar gyfer gwariant rheoledig. Mae'n rhaid iddynt hefyd adrodd cyfanswm y ffigur ar gyfer yr holl roddion o dan £7,500.

6 Twyll a chamymddygiad etholiadol

Pa fathau o droseddau etholiadol sydd?

Mae yna nifer o droseddau dan ddeddfwriaeth etholiadol all godi yn ystod cyfnod etholiadol. Mae camymddygiad etholiadol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd) yn drosedd. Byddai'r heddlu priodol yn archwilio honiadau o'r fath.

Llwgrwobrwyaeth – Bydd unigolyn yn euog o lwgrwobrwyo os bydd yn rhoi unrhyw arian neu'n caffael unrhyw swydd i neu dros unrhyw bleidleisiwr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i fwrw pleidlais, neu i ymatal rhag pleidleisio.

Dylanwad gormodol – Bydd rhywun yn euog o ddylanwadu'n ormodol os bydd yn gwneud defnydd o neu'n bygwth defnyddio grym, trais neu ataliaeth, neu beri anaf neu fygwth peri anaf, difrod, colled neu niwed er mwyn cymell neu ddarbwyllo unrhyw bleidleisiwr i fwrw pleidlais neu i ymatal rhag pleidleisio.

Cyfrinachedd – Dylai pob un sy'n gysylltiedig â'r broses etholiadol fod yn ymwybodol o gyfrinachedd y bleidlais dan Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Cambersonadu – Digwydda hyn pan fydd unrhyw unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (os yw'r unigolyn hwnnw'n fyw neu'n farw neu'n berson ffug), naill ai drwy'r post neu drwy ymddangos mewn gorsaf bleidleisio fel etholwr, neu fel dirprwy.

Troseddau pleidleisio lluosog a phleidleisio trwy ddirprwy – ceir nifer o droseddau pleidleisio lluosog a thrwy ddirprwy, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post fel etholwr neu ddirprwy pan wedi'i anghymwyso yn ôl y gyfraith rhag pleidleisio, pleidleisio fwy nag unwaith yn yr un etholiad, a gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy heb ganslo penodiad dirprwy blaenorol.

Gwybodaeth cofrestru ffug – Mae'n drosedd i roi gwybodaeth cofrestru ffug i Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'n drosedd hefyd i roi gwybodaeth ffug mewn cysylltiad â chais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Gellir dod o hyd i'r cosbau am droseddau etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ein cyfarwyddyd a luniwyd ar y cyd â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yr Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu Alban, yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/integrity-guidance/electoral-events

Pa droseddau y mae'r Comisiwn Etholiadol yn eu harchwilio?

Mae **troseddau cysylltiedig â gwariant** hefyd – amrywiol droseddau yn cynnwys toriadau mewn perthynas â therfynau treuliau ymgyrchoedd, adroddiadau gwariant ymgyrchoedd, gofynion cyfrifo pleidiau a rheoliadau rhoddion (gweler Adran 5). Gall y rhain fod yn gymwys i bleidiau gwleidyddol, unigolion a sefydliadau eraill sy'n ymwneud ag ymgyrchu etholiadol.

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod pleidiau, unigolion a sefydliadau eraill yn cydymffurfio â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a rhannau penodol o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd). Am fwy o wybodaeth, gweler adran orfodaeth ein gwefan: www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement, yn cynnwys manylion am sut ydym yn ymdrin â honiadau.

Beth mae'r Comisiwn yn ei wneud i atal twyll etholiadol?

Rydym yn gweithio'n agos â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pleidiau gwleidyddol, yr heddlu ac erlynyddion i fynd i'r afael â chamymddwyn. Mae hyn yn cynnwys llunio cyfarwyddyd a chanllaw poced i droseddau etholiadol ar gyfer yr heddlu, gweithwyr post a gweithwyr pleidiau.

Rydym hefyd wedi cytuno ar y cyd ar god ymddygiad gyda phleidiau gwleidyddol ar gyfer ymdrin â cheisiadau am bleidlais bost a phecynnau pleidleisio drwy'r post gan bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a chanfaswyr.

Mae'r cod yn gweithredu ar y ddwy brif egwyddor ganlynol:

- Dylai ymgeiswyr a chefnogwyr gynorthwyo i sicrhau bod etholiadau'n cael eu gweinyddu'n effeithlon a diogel a chynnal cyfrinachedd y bleidlais.

- Ni ddylai ymgeisydd na chefnogwr roi ei hunan mewn sefyllfa lle gellir cwestiynu'i onestrwydd neu unplygrwydd – na chywirdeb y blaid neu'r ymgeisydd.

Mae'r *Code of conduct on handling of postal votes* ar gael ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=71890 (Cymru a Lloegr) a www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=14115 (Yr Alban).

7 Cofrestru i bleidleisio

Pwy sy'n gallu cofrestru i bleidleisio?

Gall rhywun gofrestru i bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol Seneddol y DU os yw:

- yn 18 oed neu'n hŷn ar y diwrnod pleidleisio (gall pobl ifanc sy'n 16 ac 17 mlwydd oed gofrestru ond ni allant bleidleisio)
- yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd cymwys y Gymanwlad sy'n preswylio'n y DU. Bydd rhywun yn ddinesydd cymwys y Gymanwlad os oes ganddo ganiatâd amhenodol i aros yn y DU neu'n ddinesydd nad oes angen caniatâd o'r fath arno

Rhaid i bleidleiswyr gofrestru erbyn dydd Mawrth 20 Ebrill er mwyn gallu pleidleisio ar ddydd Iau 6 Mai.

Ni all dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n preswylio'n y DU bleidleisio mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, ond gellir eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol a phleidleisio mewn etholiadau lleol, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Cynulliad Cymru, Senedd yr Alban a Senedd Ewrop.

Sut ydych chi'n cofrestru i bleidleisio?

Dylai unrhyw un sy'n dymuno pleidleisio gysylltu â Swyddog Cofrestru Etholiadol eu hawdurdod lleol (awdurdod lleol neu'r Bwrdd Cydwerthuso yn yr Alban), neu fynd i www.aboutmyvote.co.uk / www.fymhleidlaisi.co.uk neu ffonio llinell gymorth y Comisiwn ar 0800 3 280 280.

A all dinasyddion y DU sy'n byw dramor gofrestru i bleidleisio?

Gall dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor gofrestru fel 'pleidleisiwr o dramor' a phleidleisio yn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU ac etholiadau Senedd Ewrop am 15 mlynedd ar ôl iddynt fod ddiwethaf ar y gofrestr etholiadol yn y DU. Rhaid iddynt gofrestru yn yr ardal lle y cofrestron nhw ddiwethaf i bleidleisio yn y DU.

Os oedd rhywun yn rhy ifanc i'w gynnwys ar y gofrestr etholiadol pan adawodd y DU, gall gofrestru i bleidleisio yn yr ardal y cofrestrwyd rhiant neu warcheidwad iddo ddiwethaf.

All rhywun gofrestru i bleidleisio mewn gwahanol gyfeiriadau?

Gall unigolyn gofrestru i bleidleisio yn ei gyfeiriad os yw'n preswylio yn y cyfeiriad hwnnw. Gall fod yn bosibl cofrestru mewn mwy nag un cyfeiriad, cyn belled â'ch bod yn preswylio'n y ddau le.

Enghraifft o hyn efallai fyddai myfyrwyr amser llawn, allai o bosibl gofrestru yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor ac yn eu cyfeiriad cartref os yw'r ddau o fewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae'n drosedd i bleidleisio ddwywaith mewn etholiad i gorff unigol, megis etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Cânt bleidleisio yn y ddwy ardal ar gyfer etholiadau awdurdod lleol, cyn belled â'u bod yn pleidleisio mewn ardaloedd awdurdod lleol gwahanol.

A all carcharorion gofrestru i bleidleisio?

Gall carcharorion ar remand bleidleisio os ydynt ar y gofrestr etholiadol. Ni all personau a gafwyd yn euog ac a garcharwyd fynd ar y gofrestr etholiadol na phleidleisio oherwydd y ddedfryd a roddwyd iddynt.

Sut all aelodau o'r lluoedd arfog gofrestru i bleidleisio?

Gall personél a'u gwragedd neu bartneriaid sifil, sy'n gwasanaethu yn y DU neu dramor, gofrestru naill ai yn eu cartref yn y DU fel pleidleisiwr cyffredin neu fel 'pleidleisiwr o'r lluoedd arfog'. Bydd pleidleiswyr o'r lluoedd arfog yn llenwi datganiad lluoedd arfog, fydd yn golygu na fydd angen iddynt gofrestru ond unwaith bob tair blynedd.

Faint o bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio ym Mhrydain Fawr?

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, roedd **44,260,051** o etholwyr Seneddol wedi'u cofrestru i bleidleisio ym Mhrydain Fawr ar 1 Rhagfyr 2009. Mae hyn yn gynnydd o 200,585 (0.5 y cant) ar flynyddoedd blaenorol.

Mewn adroddiad gan y Comisiwn yn 2005 – *Understanding Electoral Registration* – amcangyfrifwyd bod rhwng 91% a 92% o'r etholwyr yng Nghymru a Lloegr oedd yn gymwys wedi'u cofrestru i bleidleisio. Nid oes ffigurau tebyg ar gael ar hyn o bryd ar gyfer yr Alban.

Mae yna nifer o grwpiau sy'n llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio. Bydd pobl sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar, pobl ifanc a myfyrwyr, y rheiny sy'n byw mewn llety ar rent a phobl o rai cymunedau ethnig lleiafrifol i gyd yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru i bleidleisio.

Mae adroddiad 2005 y Comisiwn, *Understanding Electoral Registration*, ar gael ar www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=47252. Mae ffigurau cofrestru mwyaf diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (wedi'u rhannu yn ôl etholaethau) ar gael o www.statistics.gov.uk

Pwy all weld y gofrestr etholiadol?

Mae dwy fersiwn o'r gofrestr etholiadol – y gofrestr a 'olygwyd' a'r gofrestr 'lawn'.

Gall pleidleiswyr ddewis cael eu heithrio rhag i'w manylion gael eu cyhoeddi ar y fersiwn 'a olygwyd' o'r gofrestr. Gall unrhyw un brynu'r gofrestr a olygwyd o'r swyddfa gofrestru etholiadol leol at unrhyw ddiben.

Caiff holl bleidleiswyr eu cynnwys ar y fersiwn 'lawn' o'r gofrestr etholiadol. Mae'r fersiwn lawn o'r gofrestr ar gael i'w gweld ym mhob swyddfa gofrestru etholiadol leol a gall unrhyw un ei darllen dan arolygiaeth. Ni ellir gwneud copïau o'r gofrestr lawn.

Mae gan ymgeiswyr hawl i gopi rhad ac am ddim o'r gofrestr lawn ar gyfer yr etholaeth y maent yn sefyll ynddi. Ni allant drosglwyddo'r gofrestr i ddwylo neb arall, datgelu unrhyw wybodaeth sydd arni na'i defnyddio i ddim ond dibenion etholiadol.

Gall pleidiau gwleidyddol cofrestredig ofyn am gopi llawn o'r gofrestr ar unrhyw adeg ac mae gan gynghorwyr yr hawl i gael copi ar gyfer y ward y maent yn ei chynrychioli.

8 Pleidleisio

Sut ydych chi'n pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio?

Bydd pob gorsaf bleidleisio, neu 'leoedd pleidleisio' fel y gelwir hwy yn yr Alban ar agor o 7am hyd 10pm ar y diwrnod pleidleisio. Dyrennir gorsaf bleidleisio benodol i bob pleidleisiwr i wasanaethu'r ardal y mae'n byw ynddo. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn anfon cerdyn pleidleisio i bob etholwr fydd yn rhoi lleoliad yr orsaf bleidleisio.

Nid yw'n angenrheidiol i bleidleiswyr ddod â'r cerdyn pleidleisio gyda nhw pan fyddant yn pleidleisio.[3]

Gall y swyddfa etholiadau leol berthnasol hefyd ddarparu gwybodaeth ar leoliad y gorsafoedd pleidleisio. Mae manylion cyswllt ar gael o www.aboutmyvote.co.uk / www.fymhleidlaisi.co.uk neu drwy ffonio llinell gymorth y Comisiwn ar 0800 3 280 280.

Mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU, dim ond un waith y dylid marcio papur pleidlais a hynny gydag 'X' unigol yn y blwch i'r dde i enw'r ymgeisydd y dymuna'r pleidleisiwr bleidleisio iddo.

Sut ydych chi'n pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Gall pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr ddewis pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy os na allant, neu os nad ydynt yn dymuno mynd i'r orsaf bleidleisio'n bersonol. Gall pleidleiswyr anfon cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy ar gyfer etholiad sengl at eu Swyddog Cofrestru Etholiadol, am gyfnod penodol neu amhenodol.

Wrth wneud cais am bleidlais drwy'r post, rhaid i bob pleidleisiwr roi ei enw, ei ddyddiad geni a'i lofnod. Caiff y rhain eu galw yn 'ddynodwyr pleidlais absennol' a chânt eu gwirio pan fydd pleidleiswyr yn bwrw'u pleidlais fel mesur diogelwch.

Wrth wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy, rhaid i bleidleiswyr benodi rhywun i bleidleisio ar eu rhan yn yr orsaf bleidleisio neu drwy bleidlais drwy'r post. Rhaid i bleidleiswyr drwy ddirprwy ddweud wrth eu dirprwy i ba blaid neu ymgeisydd unigol y dymunant bleidleisio.

Mae ffurflenni cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy ar gael o swyddfeydd cofrestru etholiadol, o www.aboutmyvote.co.uk / http://www.fymhleidlaisi.co.uk neu drwy ffonio ein llinell gymorth ar 0800 3 280 280.

Ni all Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn 5pm ar ddydd Mawrth 20 Ebrill 2010.

[3] Bydd angen i bleidleiswyr a gofrestrwyd yn ddienw am resymau diogelwch personol gyflwyno'u cerdyn pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

Rhaid derbyn y pleidleisiau drwy'r post erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio a gellir eu postio yn ôl i swyddfeydd y cyngor, eu dychwelyd trwy law at y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn swyddfeydd lleol y cyngor neu i'r orsaf bleidleisio.

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yw 5pm ar ddydd Mawrth Ebrill 20 2010.

Beth fu'r niferoedd ddaeth i bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol Seneddol y DU blaenorol?

Yn etholiad cyffredinol Seneddol y DU 2005 pleidleisiodd 61.4% o'r etholwyr a gofrestrwyd, sef mwy na'r niferoedd o 59.4% yn 2001, ond yn isel yn hanesyddol.

Tabl 4: Y niferoedd a bleidleisiodd mewn etholiadau cyffredinol Seneddol 1945–2005 (% o'r etholwyr a gofrestrwyd)

Blwyddyn	Ledled y DU	Lloegr	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
1945	72.8	73.4	75.7	69	67.4
1950	83.9	84.4	84.8	80.9	77.4
1951	82.6	82.7	84.4	81.2	79.9
1955	76.8	76.9	79.6	75.1	74.1
1959	78.7	78.9	82.6	78.1	65.9
1964	77.1	77	80.1	77.6	71.7
1966	75.8	75.9	79	76	66.1
1970	72	71.4	77.4	74.1	76.6
1974 Chwe	78.8	79	80	79	69.9
1974 Hyd	72.8	72.6	76.6	74.8	67.7
1979	76	75.9	79.4	76.8	67.7
1983	72.7	72.5	76.1	72.7	72.9
1987	75.3	75.4	78.9	75.1	67
1992	77.7	78	79.7	75.5	69.8
1997	71.4	71.4	73.5	71.3	67.1
2001	59.4	59.1	61.4	58.1	68
2005	61.4	61.3	62.6	60.8	62.9

Ffigur 2: Y niferoedd a bleidleisiodd mewn etholiadau cyffredinol Seneddol 1945–2005 (% o etholwyr a gofrestrwyd)



Sawl pleidlais enillodd pob plaid yn yr etholiad diwethaf?

Tabl 5: Canlyniadau etholiad cyffredinol Seneddol y DU 2005[4]

Plaid	Pleidleisiau	% y pleidleisiau a fwriwyd	% y newid ers 2001	Seddi	cynnydd/ colled net
Llafur (gan gynnwys y Llefarydd)	9,567,589	35.3	-5.5	356	-47
Ceidwadwyr	8,784,915	32.4	+0.7	198	+33
Democratiaid Rhyddfrydol	5,985,454	22.0	+3.8	62	+11
Plaid Genedlaethol yr Alban	412,267	1.5	-0.2	6	+2
Plaid yr Unoliaethwyr Democrataidd	241,856	0.9	+0.2	9	+4
Plaid Cymru	174,838	0.6	-0.1	3	-1
Sinn Fein	174,530	0.6	0.0	5	+1
Plaid Unoliaethwyr Ulster	127,414	0.5	-0.4	1	-5
Plaid Lafur y Democratiaid Cymdeithasol	125,626	0.5	-0.2	3	0
Respect	68,094	0.3	N/A	1	+1
Ysbyty Kidderminster a Health Concern Annibynnol	18,739	0.1	0.0	1	0
Annibynnol (26 ymgeisydd)	99,691	0.4	0.0	1	+1

[4] Y Comisiwn Etholiadol (Ebrill 2006) *Election 2005: The Results*. Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar ein gwefan www.electoralcommission.org.uk/document-summary?assetid=47185

9 Cyfrif y pleidleisiau

Pryd fydd y cyfrif yn digwydd?

Gall y cyfrif gychwyn cyn gynted ag y bydd yr etholiad yn gorffen am 10pm. Bydd pob Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn penderfynu pryd fydd y cyfrif yn digwydd, gan roi ystyriaeth i amgylchiadau lleol. Bydd rhai ardaloedd yn cynnal y cyfrif ar y nos Iau ac eraill ar y dydd Gwener.

Mae'r Mesur Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu (Mesur CRAG), sydd o flaen Senedd y DU ar hyn o bryd, yn gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif pleidleisiau o fewn pedair awr i'r etholiad orffen.

Rydym wedi cyhoeddi arweiniad drafft i Swyddogion Canlyniadau. Byddwn yn cyhoeddi ein harweiniad terfynol cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Rydym wedi gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) roi gwybod i'r Comisiwn pryd y maent yn bwriadu dechrau cyfrif pleidleisiau yn yr etholiad cyffredinol y DU sy'n nesáu ac rydym wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi cynghori Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) y dylent allu egluro eu penderfyniad ac y dylent fod yn barod i wneud hynny wrth ymateb i ymholiadau.

Bydd staff etholiadol yn agor pecynnau pleidleisio a ddychwelwyd drwy'r post hyd at a chan gynnwys y diwrnod pleidleisio, i wirio'r dynodwyr personol fydd ynddynt (dyddiad geni a llofnod y pleidleisiwr). Yn y sesiynau agor hyn, rhaid i'r papurau pleidleisio aros wyneb i waered ac ni fydd y staff etholiadol yn eu cyfrif cyn i'r etholiad orffen.

Mae tabl o ba Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) fydd yn cyfrif pleidleisiau ar noson yr etholiad neu'r diwrnod canlynol ar gael ar ein gwefan, ynghyd â'n arweiniad drafft i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol): www.electoralcommission.org.uk/elections/upcoming-elections-and-referendums/uk/general-election

Beth sy'n digwydd yn ystod y cyfrif?

Bydd cam cyntaf y cyfrif yn ymdrin â gwirio pob papur pleidleisio. Trwy gydol y diwrnod pleidleisio, bydd staff yr orsaf bleidleisio yn cofnodi nifer y papurau pleidleisio a rennir i bleidleiswyr. Bydd staff y ganolfan gyfrif wedyn yn cymharu hyn gyda niferoedd y papurau pleidlais sy'n y blychau pleidleisio fydd y staff etholiadol wedi'u danfon i'r ganolfan gyfrif.

Dim ond ar ôl i'r gwirio ddigwydd y gall y cynorthwywyr cyfrif ddechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd.

Gall ymgeiswyr benodi 'asiantiaid cyfrif' i fynychu'r cyfrif. Gall asiantiaid cyfrif arsyllu'r broses a chynorthwyo i sicrhau y cynhelir y cyfan mewn modd drefnus a chywir. Er enghraifft, gall asiantiaid cyfrif dynnu sylw'r staff cyfrif at

bapurau pleidleisio amheus neu ddadlau dros gynnwys papurau pleidleisio a wrthodwyd gan y staff cyfrif fel rhai oedd wedi'u difetha.

Mae'r gyfraith yn gwahardd asiantiaid cyfrif rhag ymdrin â phapurau pleidleisio. Rhaid i unrhyw un fydd yn mynychu'r cyfrif (neu unrhyw drefn etholiadol) barchu cyfrinachedd y bleidlais.

Gall ymgeiswyr a'u hasiantiaid ofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ailgyfrif y bleidlais. Nid oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall ymgeisydd neu ei asiant ofyn am ailgyfrif, ond gall Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wrthod cais os yw o'r farn ei fod yn afresymol. Gall Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) gymell ailgyfrif.

All y wasg fynychu'r cyfrif?

Rhaid i aelodau o'r wasg wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) os ydynt am fynychu'r cyfrif. Dylent ufuddhau i unrhyw gyfarwyddyd fydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ei roi. Bydd penderfyniad y Swyddog Canlyniadau yn derfynol. Nid oes raid iddo ganiatáu i unrhyw aelod o'r wasg ddod i'r cyfrif (oni bai eu bod nhw hefyd yn ymgeisydd, yn asiant yr ymgeisydd, yn asiant cyfrif neu yn arsyllwr achrededig ac ati).

10 Herio canlyniad etholiad

All rhywun herio canlyniad etholiad?

Gall rhywun herio canlyniad etholiad drwy gyhoeddi deiseb etholiadol. Gellir cyflwyno deiseb gan:

- rhywun oedd â'r hawl i bleidleisio yn yr etholiad
- rhywun yn honni iddo fod yn ymgeisydd yn yr etholiad
- rhywun yn mynnu iddo fod â'r hawl i gael ei ethol yn yr etholiad

Rhaid i ddeisebwyr gyflwyno'r ddeiseb o fewn 21 diwrnod o ddychwelyd y gwrit (fel arfer y diwrnod ar ôl yr etholiad). Os bydd y ddeiseb yn ymwneud â threuliau etholiad neu arferion anghyfreithlon yn ymwneud ag arian ar ôl yr etholiad, gellir caniatáu mwy o amser.

Rhaid i ddeisebwyr lofnodi'r ddeiseb a'i dychwelyd i'r Swyddfa Deiseb Etholiadol yn y Llys Goruchaf yng Nghymru a Lloegr a Llys y Sesiwn yn yr Alban.

Cysylltu â ni

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0500
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa'r Alban
38 Thistle Street
Edinburgh EH2 1EN
Ffôn: 0131 225 0200
Ffacs: 0131 225 0205
Ffôn testun: 18001 0131 225 0200
infoscotland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa'r Cymru
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE
Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
Ffôn testun: 18001 029 2034 6800
gwybodaeth@comisiwnetholioadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Swyddfa Gogledd Iwerddon
Seatem House
28–32 Alfred Street
Belfast BT2 8EN
Ffôn: 028 9089 4020
Ffacs: 028 9089 4026
Ffôn testun: 18001 028 9089 4020
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Eastern and South East Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0600
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0600
easternandsoutheastoffice
@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
London Office
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW
Ffôn: 020 7271 0689
Ffacs: 020 7271 0505
Ffôn testun: 18001 020 7271 0689
london@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Midlands Office, No 2 The Oaks
Westwood Way, Westwood Business Park
Coventry CV4 8JB
Ffôn: 02476 820086
Ffacs: 02476 820001
Ffôn testun: 18001 02476 820086
midlands@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
North of England Office
York Science Park
IT Centre
Innovation Way
Heslington
York YO10 5DG
Ffôn: 01904 567990
Ffacs: 01904 567719
Ffôn testun: 18001 01904 567990
north@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
South West Office
Regus, 1 Emperor Way
Exeter Business Park
Exeter EX1 3QS
Ffôn: 01392 314617
Ffacs: 01392 314001
Ffôn testun: 18001 01392 314617
southwest@electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Trevelyan House
Great Peter Street
London SW1P 2HW

Tel 020 7271 0500
Fax 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Mae manylion cyswllt ar gyfer ein swyddfeydd yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr tu fewn i glawr clawr cefn yr adnodd hwn.

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hygrededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif